Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 23.09.20 |
| **Pwnc / Subject:** | **Diwygiadau arfaethedig i weithdrefnau llywodraethu ysgolion yng Nghymru** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br><br>Mae Estyn yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y diwygiadau arfaethedig i weithdrefnau llywodraethu ysgolion yng Nghymru.<br><br>Rydym yn cydnabod yr angen am y newidiadau pwysig hyn yn unol â'r newidiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl a deddfwriaeth mewn rhannau eraill o'r DU, yn ogystal ag i alluogi cyrff llywodraethol i gael yr opsiwn o ddefnyddio technoleg ddigidol sydd ar gael.<br><br>Mae Estyn hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau, lle bynnag y bo modd, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fydd cyrff llywodraethol mewn ysgolion Cymraeg ac ysgolion dwyieithog yn cynnal eu busnes, trwy ba fodd bynnag a ddewisant.<br><br>Rydym wedi amlinellu ychydig o ystyriaethau pellach yn ymwneud â sicrhau, os yw corff llywodraethol yn dewis cynnal cyfarfodydd yn rhithwir a chadw cofnodion electronig yn hytrach na chofnodion papur, bod pob aelod o'r corff llywodraethol yn cael mynediad i'r cyfarfodydd a'r holl gofnodion.  Hefyd, byddai angen i gyrff llywodraethol sicrhau bod y cadeirydd yn llofnodi holl gofnodion cyfarfodydd, polisïau ysgol a phenderfyniadau pwysig. Yn ogystal, cyfrifoldeb pob corff llywodraethol mewn ysgol Gymraeg neu ysgol ddwyieithog fyddai sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnal unrhyw fusnes gan ddefnyddio dulliau electronig.  Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn rhesymau dros atal y newidiadau arfaethedig. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno â'r cynnig i gael gwared ar y meini prawf anghymwyso yn ymwneud â Deddf Iechyd Meddwl 1983?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â'r diwygiad hwn er mwyn alinio â Deddf Iechyd Meddwl (Gwahaniaethu) 2013.  Yn unol â newidiadau a amlinellwyd yn y ddeddf i derfynu'r cymhwysedd hwn ar gyfer Aelodau Seneddol sy'n eistedd, cyfarwyddwyr cwmnïau a rheithwyr ar sail salwch meddwl, rydym yn cytuno bod hwn yn gynnig priodol i derfynu anghymwyso darpar lywodraethwyr a llywodraethwyr presennol ar sail salwch meddwl hefyd. |

**Cwestiwn 2** – A ydych yn cytuno â'r cynnig i ddiwygio'r Gorchymyn a'r Ddeddf anghymwyso cyfarwyddwyr cwmnïau, sy'n anghymwyso ymddiriedolwyr elusennau, gan ddiweddaru rheoliadau Cymru mewn perthynas â deddfwriaeth ledled y DU?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Rydym yn cytuno â’r cynnig i ddiwygio anghymhwyso ymddiriedolwyr elusennau rhag gwasanaethu fel aelodau o gorff llywodraethol. Bydd hyn yn diweddaru rheoliadau Cymru mewn perthynas â deddfwriaeth ledled y DU. |

**Cwestiwn 3 –** A ydych yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu i gofnodion gael eu cadw'n electronig? Mae ‘yn electronig’ yn y cyd-destun hwn yn golygu gwneud a chadarnhau penderfyniadau drwy e-bost, neu adnoddau rhannu ffeiliau eraill megis Microsoft Teams, sy'n cael eu cadw yn ddiogel at ddibenion archwilio.

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae’n briodol newid y rheoliadau i ganiatáu i gyrff llywodraethol gadw cofnodion cyfarfodydd a chofnodion eraill yn electronig. Fodd bynnag, dylai cyrff llywodraethol gael yr opsiwn i barhau i gadw cofnodion ysgrifenedig yn lle defnyddio dulliau electronig. Os yw’r corff llywodraethol yn dewis cadw unrhyw gofnodion yn electronig, bydd angen i’r cadeirydd sicrhau bod holl aelodau’r corff llywodraethol yn gallu mynd at yr holl gofnodion electronig er mwyn sicrhau tegwch a chydraddoldeb.<br><br>Pa system bynnag y mae corff llywodraethol yn dewis ei defnyddio, mae’n bwysig bod y cadeirydd yn llofnodi cofnodion cyfarfodydd cyrff llywodraethol fel cofnod cywir o’r cyfarfod ac o’r penderfyniadau a wnaed ganddynt. Byddai hyn yn berthnasol hefyd i bolisïau ysgol a dogfennau cyfreithiol eraill sy’n mynnu llofnod. |

**Cwestiwn 4** - A ydych yn cytuno â'r cynnig i ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal drwy fynediad o bell, h.y. drwy ddefnyddio adnoddau telegynadledda neu fideo-gynadledda?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Yn ystod y cyfnod clo diweddar, fe wnaeth llawer o gyrff llywodraethol ledled Cymru ddefnyddio technoleg yn llwyddiannus i'w galluogi i gynnal cyfarfodydd rhithwir ac i gynnal busnes arall cyrff llywodraethol.<br><br>Er nad yw hyn yn cael ei atal yn y rheoliadau presennol, cytunwn ei fod yn gynnig synhwyrol i'w gwneud hi'n gliriach yn y rheoliadau fod yr opsiwn gan gyrff llywodraethol i gynnal cyfarfodydd o bell ar yr amod fod hwn yn llwyfan addas i'r holl lywodraethwyr ei ddefnyddio. |

**Cwestiwn 5** – Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys amodau i ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal drwy fynediad o bell. Mae'r amodau fel a ganlyn:

(1) bydd cyfranogwyr yn gallu cyflwyno sylwadau/cyflawni swyddogaethau yn llawn
(2) mae cyfranogwyr yn cytuno i gynnal y cyfarfod drwy fynediad o bell
(3) mae gan bob cyfranogwr fynediad i'r dulliau electronig sy'n eu galluogi i glywed/cael eu clywed, gweld/cael eu gweld
(4) gellir cynnal y cyfarfod yn deg ac yn dryloyw.

Ydych chi'n cytuno â'r amodau hyn?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Yn ystod y cyfnod clo diweddar, er i lawer o gyrff llywodraethol ar hyd a lled Cymru ddefnyddio technoleg yn effeithiol i gynnal cyfarfodydd rhithwir, roedd yna achosion lle nad oedd aelodau o gorff llywodraethol yn gallu cymryd rhan mewn cyfarfodydd oherwydd materion/gallu yn ymwneud â thechnoleg. Mae angen i gyrff llywodraethol sicrhau felly, os ydynt yn dewis defnyddio'r dull cyfathrebu hwn, bod yr holl lywodraethwyr yn gallu cael mynediad iddo i'w galluogi i gyd i gyflawni'u swyddogaethau a gwneud sylwadau unigol.<br><br>Yn ein cyhoeddiad '**Cameos a syniadau o ysgolion ac UCDau ar barhau â busnes ysgol**' (Estyn, Mai 2020), fe wnaethom ddarparu cameo o'r modd yr oedd corff llywodraethol yn defnyddio technoleg yn effeithiol i gynnal cyfarfodydd y corff llywodraethol yn ystod y cyfnod clo yn nogfen Estyn. Ceir dolen i'r cameo yma.<br><br>Byddai angen i gyrff llywodraethol wneud yn siŵr eu bod yn defnyddio llwyfannau diogel a hygyrch, sydd â pholisi cytûn i arwain eu gweithdrefnau a systemau i gadw cofnod o benderfyniadau yr oeddent wedi'u gwneud. Byddai hyn yn helpu sicrhau bod yr holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn deg a thryloyw. |

Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cynhyrchu canllawiau i gyrff llywodraethol i gyd-fynd â'r newidiadau i'r rheoliadau. Byddai hyn yn sicrhau bod gan bob corff llywodraethol fynediad i'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chadw'n ddiogel a saff wrth gynnal eu busnes ar-lein.

**Cwestiwn 6 –** Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r newidiadau hyn i weithdrefnau llywodraethu ysgolion yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar y canlynol:

i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut gellir cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Byddai angen i gorff llywodraethol pob ysgol Gymraeg a dwyieithog fod â pholisi ar gyfer iaith eu cyfarfodydd. Mae pob corff llywodraethol yn cynnwys llywodraethwyr ag anghenion gwahanol o ran iaith, a bydd ei gallu i gyfranogi mewn cyfarfodydd a gyflwynir trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio. Cyfrifoldeb pob corff llywodraethol fydd trafod hyn pan fyddant yn cytuno ar eu polisi ar ddefnyddio technoleg i gynnal a chofnodi cyfarfodydd.

Os oes gan gyrff llywodraethol bolisi presennol o gynnal cyfarfodydd dwyieithog neu gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfan gwbl, nid yw'n ymddangos bod unrhyw reswm pam na ddylai hyn barhau. Cyfrifoldeb pob corff llywodraethol unigol ysgolion Cymraeg a dwyieithog fydd sicrhau, lle bynnag y bo modd, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn yr un modd, os ydynt yn dewis y dull hwn, ymddengys nad oes fawr o rwystrau rhag bod cyrff llywodraethol yn cofnodi cofnodion electronig sy'n ddwyieithog.

**Cwestiwn 7** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y camau sy'n cael eu cynnig:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i Gwestiwn 6, gallai fod aelodau â galluoedd gwahanol o ran y Gymraeg gan bob corff llywodraethol ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Yn aml, mae'r cyrff llywodraethol hyn yn cynnwys aelodau nad oes fawr o Gymraeg ganddynt, neu ddim Cymraeg, ac felly byddai'n anodd iawn i'r grwpiau hyn gynnal cyfarfodydd trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfan gwbl heb unrhyw gyfleusterau cyfieithu.

Byddai'n anodd felly cyflwyno unrhyw gamau gweithredu yn genedlaethol i bennu cyfrwng iaith busnes cyrff llywodraethol ysgolion unigol. Mae'n bwysig, fodd bynnag, parhau â pholisi o sicrhau yn gyffredinol, a lle bynnag y bo modd, nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg pan fydd cyrff llywodraethol mewn ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn cynnal eu busnes.

**Cwestiwn 8** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Os yw mwy o gyrff llywodraethol yn dewis cynnal cyfarfodydd gan ddefnyddio technoleg, gallai fod goblygiadau hyfforddi i lywodraethwyr a chlercod presennol y byddai angen i gonsortia rhanbarthol a/neu awdurdodau lleol fynd i'r afael â nhw.

Gallai fod yn fuddiol hefyd i gyrff llywodraethol ddefnyddio Hwb i storio'u cofnodion electronig. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion unigol drefnu cyfeiriad e-bost Hwb i bob llywodraethwr a sefydlu ardal SharePoint i'r corff llywodraethol storio cofnodion ac ati yn ddiogel.

Gallai fod yn fuddiol i Lywodraeth Cymru sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adeiladu ar y newidiadau arfaethedig hyn i'r rheoliadau er mwyn helpu llunio canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethol ar sut i gynnal busnes o bell a chadw pob gwybodaeth yn ddiogel ar-lein.

Mae enghreifftiau ac astudiaethau achos defnyddiol ar y modd y mae ysgolion yn defnyddio llwyfannau digidol yn llwyddiannus, yn enwedig i rannu dogfennau ysgol, yn ein hadroddiad thematig, '**Paratoi ar gyfer y Fframwaith Cymhwysedd Digidol**' (Estyn, Gorffennaf 2018)

Gallai'r astudiaethau achos hyn fod yn ddefnyddiol i gynorthwyo cyrff llywodraethol i ddefnyddio technoleg yn effeithiol i gynnal eu busnes.

Yn ogystal, mae canllawiau defnyddiol i gynorthwyo cyrff llywodraethol i weithio o bell yn ein cyhoeddiad '**Cyngor i arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion ac UCDau ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD yn ystod pandemig Covid-19**' (Estyn, Ebrill 2020)

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐